Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL
Gweithredol

# Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

# ADRODDIAD CYDYMFFURFIAETH 2020

01/04/2019 – 31/03/2020

Adroddiad Cydymffurfiaeth Blynyddol
Ebrill 2020

SWYDDOGOL
Gweithredol

## Cyflwyniad

Lluniwyd y papur hwn er mwyn rhoi trosolwg cryno o gydymffurfiaeth o fewn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu dros y cyfnod o Ebrill 2019 – Mawrth 2020.

## Cynnwys

- Gofynion Cyhoeddi
- Yr Iaith Gymraeg
- Rheoli Gwybodaeth
- Rheoli Cofnodion
- Rhyddid Gwybodaeth
- Cais Gwrthrych am Wybodaeth
- Risg
- Parhad Busnes
- Gorchymyn Protocol Plismona 2011
- Hyfforddiant
- AD
- Gwaith Polisi
- Ystadau

## Gofynion Cyhoeddi

Disgwylir i SCHTh gyhoeddi peth wmbreth o wybodaeth ar gyfnodau amrywiol yn ystod y flwyddyn er mwyn bod yn dryloyw, rhoi gwybodaeth i breswylwyr a chydymffurfio â deddfwriaeth. Rhaid i bob SCHTh lynu wrth y gofynion fel y'u nodir yng Ngorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau y bydd CHTh yn cyhoeddi gwybodaeth am y canlynol:

- Pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei wneud
- Beth maen nhw'n gwario a sut maen nhw'n ei wario
- Beth yw eu blaenoriaethau a sut maen nhw'n dod ymlaen
- Sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau
- Pa bolisïau a gweithdrefnau sy'n llywodraethu gweithrediad swyddfa CHTh
- Rhestri a chofrestri

Pob blwyddyn, mae CoPaCC (Cymharu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – arbenigwyr Llywodraethu'r Heddlu) yn asesu sut mae swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddu (SCHTh) yn cyflawni eu rhwymedigaethau statudol ar gyfer tryloywder. Rhoddir "Nod Ansawdd Agored a Thryloyw" CoPaCC bob blwyddyn i'r SCHTh hynny y bernir eu bod wedi cyrraedd safon foddhaol.

Ym mis Chwefror 2020, cafodd y swyddfa wybod ei bod wedi llwyddo i sicrhau Nod Ansawdd "Tryloywder SCHTh" CoPaCC am yr ail flwyddyn yn olynol, ynghyd â 27 SCHTh arall.

Er mwyn sicrhau bod SCHTh yn cadw ei lle mewn perthynas â chyhoeddi, mae'r Swyddog Cymorth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn gwirio'r wefan yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob dim yn ddiweddar ac yn adlewyrchu gwaith cyfredol y swyddfa bob amser.

## Yr Iaith Gymraeg

Daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 i rym ar 22 Mawrth 2016. Mae'r prif ddyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n mynnu na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylid ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.


Ers Ebrill 2019, mae siarad Cymraeg hyd lefel 1 yn ofyniad mynediad ar gyfer swyddogion a staff.


Bydd staff a swyddogion heb allu o ran y Gymraeg sydd eisoes yn gweithio i'r sefydliad yn cael eu cefnogi i gyrraedd lefel 1 yn y Gymraeg dros gyfnod o 12 mis.

Sgiliau Cymraeg

| | |
|---|---|
| Lefel 0 | Dim Gwybodaeth |
| Lefel 1 | Cyfarch |
| Lefel 2 | Gwybodaeth Sylfaenol |
| Lefel 3 | Sgyrsiol |
| Lefel 4 | Ffurfiol/Sgyrsiol |
| Lefel 5 | Llawn a Chywir |

Nifer staff SCHTh sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:



- Mae lefel dda iawn o sgiliau Cymraeg ymysg staff SCHTh. Gellir gweld manylion y lefelau o fewn yr heddlu (ar gyfer dibenion cymharu) yn yr adroddiad sydd ynghlwm.

Force welsh language levels Cym

- Yr unig safon nad yw SCHTh yn cydymffurfio â hi yw'r sain yn y lifft, sydd ddim ar gael yn Gymraeg. Yn y gorffennol, penderfynodd y Bwrdd Gweithredol na fyddai'r sain yn cael ei diweddaru'n syth oherwydd y gost. Erbyn hyn, mae amcanbrisiau wedi'u derbyn ar gyfer y gwaith hwn, ac mae trafodaethau'n parhau rhwng y Cyfarwyddwr Ystadau a'r Pennaeth Staff ynghylch hyfywdra datblygu hyn.

- Ni chofnodwyd UNRHYW achos o dorri Safonau'r Gymraeg gan SCHTh yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ac ni dderbyniwyd UNRHYW gwynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth y swyddfa â'r safonau.

- Hyfforddiant – Rhoddir cyfle i holl aelodau staff SCHTh dderbyn gwersi Cymraeg. Nid dderbyniwyd y cynnig hwn gan unrhyw aelod staff eleni.

- Hyfforddiant – Cymerodd 5 aelod staff ran mewn cwrs ar gyfer gwella eu Cymraeg ym mis Tachwedd 2019. Lluniwyd y cwrs i roi mwy o hyder i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn eu rolau wrth gyfathrebu â siaradwyr Cymraeg. Nod y diwrnod oedd adeiladu ar y sgiliau Cymraeg ysgrifenedig sydd ganddynt yn barod, a'u helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth wynebu sefyllfaoedd megis paratoi e-byst, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, llythyrau, adroddiadau ac ati.

## Rheoli Gwybodaeth

Rheoli Gwybodaeth yw'r broses o gasglu, cadw, rheoli a chynnal gwybodaeth ym mhob ffurf. Rhaid i SCHTh lynu wrth y gofynion cyfreithiol a nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

- Cymerodd SCHTh ran mewn archwiliad gwirfoddol a gyflawnwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Ionawr 2020.
  Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar:

Atebolrwydd a Llywodraethu Gwybodaeth, Rhannu Data, Diogelwch, Rheoli Cofnodion a Cheisiadau ar gyfer Data Personol.

Cymerodd sawl SCHTh ran yn y prosiect archwiliad gwirfoddol. Nod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth oedd dadansoddi'r canfyddiadau a nodi patrymau a themâu cyffredin y gellid eu defnyddio i deilwra'r cymorth maen nhw'n cynnig i'r sector. Roedd adroddiad fod cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, ond nid yw wedi'i gwblhau eto. Ni fydd yr adroddiad yn enwi unrhyw SCHTh a gymerodd ran.

Ar ôl yr ymweliad, rhoddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth adroddiad unigol i SCHTh Dyfed-Powys o argymhellion yr oedd y Rheolwr Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am eu cyflenwi. Tynnwyd sylw at rai arferion da o fewn yr adroddiad, ac o ganlyniad i'r argymhellion, mae SCHTh wedi cwblhau'r canlynol:

- Adolygwyd a diweddarwyd yr Hysbysiad Preifatrwydd.
- Mae'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth wrthi'n cael ei hadolygu gan bob maes busnes.
- Crëwyd taenlen er mwyn cofnodi holl asesiadau effaith diogelu data SCHTh. Mae staff SCHTh hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar asesiadau effaith diogelu data.
- Roedd y cyfarfod tîm misol ym mis Chwefror yn canolbwyntio ar gydymffurfiaeth.
- Gweithredwyd cofnod er mwyn cofnodi nifer y trafodaethau a gynhaliwyd mewn cyfarfodydd tîm/unrhyw e-byst a anfonwyd ac ati ar gydymffurfiaeth.
- Bu trafodaethau rhwng y Pennaeth Staff a'r Heddlu mewn perthynas â gweithredu cytundeb rhannu data.
- Diweddarwyd y wefan er mwyn adlewyrchu rheolau mewn perthynas â cheisiadau gwrthrych am wybodaeth.
- Cyflwynir archwiliadau ac arolygiadau ar gyfer diogelu ein gwybodaeth electronig a phapur yn ystod y misoedd i ddod gan ein Swyddog Cymorth Perfformiad a Chydymffurfiaeth ar y cyd â bod yn arweinydd SCHTh ar gadw a gwaredu.
- Mae disodli bagiau gwastraff cyfrinachol â biniau'n cael ei ystyried er mwyn bodloni gofynion yn llwyr.

- Cofnodwyd 2 achos o dorri rheoliadau amddiffyn eleni. E-bost a anfonwyd at bob derbynnydd gan ddangos eu cyfeiriadau e-bost yn hytrach na'u cuddio oedd un. Ni ddatgelwyd unrhyw ddata arall heblaw cyfeiriadau e-bost. Cynghorodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth nad oeddent yn ystyried bod angen adrodd amdano o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Roedd y llall mewn e-bost hefyd. Y tro hwn, roedd yn cyfeirio at fetio a oedd yn cynnwys enwau pobl nad oedd yn gweithio i'r cwmni. Cofnodwyd y ddau achos yn syth, adalwyd yr e-byst, a hysbyswyd SDD SCHTh. Nid oedd angen unrhyw weithredu pellach ar gyfer y digwyddiadau hyn.

## Rheoli Cofnodion

Mae SCTh wedi ymrwymo i weithredu mewn modd agored a thryloyw. Er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Gwybodaeth, rhaid i SCHTh sicrhau bod ei chofnodion yn bodloni'r safonau gofynnol ar gyfer ymdrin yn effeithiol â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Adolygwyd polisi SCHTh ar gyfer cadw a gwaredu ym mis Hydref 2019. Gwnaed ychwanegiadau er mwyn adlewyrchu gofynion yr adran Ystadau.

Mae tagio ar SharePoint yn ddarn o waith sy'n mynd rhagddo dan arweiniad y Swyddog Cymorth Perfformiad a Chydymffurfiaeth. Anfonwyd gohebiaeth at bob aelod staff ym mis Hydref yn gofyn iddynt gydymffurfio â'r polisi a sicrhau fod pob dogfen ar SharePoint yn cael ei thagio'n briodol.

Mae'r Rheolwr Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn bresennol yng nghyfarfodydd chwarterol Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth yr Heddlu, sy'n rhoi cyfle i'r swyddfa deall y materion y mae'r heddlu'n eu hwynebu ar hyn o bryd mewn perthynas â rheoli cofnodion.

## Rhyddid Gwybodaeth

Fel corfforaeth undyn, mae SCHTh yn destun ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i bawb ofyn am unrhyw wybodaeth gofnodedig a gedwir gan awdurdod cyhoeddus. Mae'r hawl ond yn cynnwys gwybodaeth gofnodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiaduron, mewn e-byst ac mewn dogfennau print neu ddogfennau sydd wedi'u hysgrifennu mewn llawysgrifen yn ogystal â delweddau, fideos a recordiadau sain. Rhaid i SCHTh ymateb i bob cais o'r fath o fewn 20 diwrnod gwaith.

- Derbyniwyd 28 cais Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- Roedd SCHTh ond yn dal gwybodaeth ar gyfer 14 o'r ceisiadau hyn. Cyfeiriwyd 2 arall at wefan SCHTh, lle'r oedd y wybodaeth eisoes wedi'i chyhoeddi. Anfonwyd 12 ymlaen at yr heddlu gyda chaniatâd y ceisydd gan fod posibilrwydd eu bod yn dal y wybodaeth.
- Roedd 2 o geisiadau SCHTh y tu allan i'r ffrâm amser reoleiddiol ar gyfer ymateb. Mae cynlluniau wrth gefn wedi'u rhoi mewn grym er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd yn y dyfodol.
- Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae pob cais wedi'i gau. Derbyniwyd y cais olaf ar 16 Mawrth.
- Mae SCHTh yn cael gweld ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr Heddlu er mwyn deall themâu'r ceisiadau. Mae'r rhain yn cael eu casglu a'u hanfon at y tîm gweithredol ddwywaith y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o'r ceisiadau a gyflwynir i'r heddlu ar gyfer ystadegau arestio a PHOB ymholiad trosedd cyffredinol. Mewn cymhariaeth, mae SCHTh yn derbyn nifer bach iawn o geisiadau rhyddid gwybodaeth, gyda'r Heddlu'n derbyn 945 yn ystod yr un cyfnod.

## **Mynediad at Ddata gan y Testun**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd yn rhoi'r hawl i bawb ofyn i sefydliad pa un ai a yw'n defnyddio neu'n cadw eu gwybodaeth bersonol. Gall unigolyn hefyd ofyn am gopïau o'i wybodaeth bersonol, ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Gelwir hyn yn hawl mynediad, ac mae'n fwy adnabyddus fel gwneud cais gwrthrych am wybodaeth. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i SCHTh ymateb i unrhyw geisiadau o'r fath o fewn mis.

Cyfrifoldeb SCHTh yn unig yw ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth.

- Derbyniwyd 11 cais gwrthrych am wybodaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon, fodd bynnag, nid oedd SCHTh yn dal gwybodaeth am unrhyw un o'r gwrthrychau. Anfonwyd manylion atynt ynglŷn â sut i wneud cais i'r Heddlu pe baent yn dymuno hynny. Roedd thema pob cais yn debyg, gyda phobl yn gofyn am fanylion ynghylch unrhyw rybuddion yr oeddent wedi derbyn, cofnodion digwyddiadau ac ati.

## **Risg**

Adolygwyd cofrestr risg SCHTh yn drylwyr ym mis Rhagfyr 2019. Cyn hynny, roedd SCHTh yn dal 2 gofrestr risg, sef 1 corfforaethol ac 1 dynamig, a oedd yn

adlewyrchu methodoleg risg yr Heddlu. Yn aml, nid oedd y cofrestri hyn yn cael eu defnyddio’n gywir. Yr oeddent yn dal llawer iawn o wybodaeth, gan olygu nad oedd adrodd arnynt yn ymarferol.

Ceisiwyd cyngor gan Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes a Risg yr Heddlu, a phenderfynwyd symleiddio system rheoli risg SCHTh a chael un gofrestr yn unig.

Derbyniodd pob aelod staff ohebiaeth am y broses newydd, gyda chyfarwyddiadau clir ynghylch sut i ddefnyddio’r gofrestr, pryd a pham.

Bellach, mae’r gofrestr yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen, ac mae modd cynhyrchu adroddiadau. Cyflwynwyd yr adroddiad cyntaf i’r Tîm Gweithredol a’r Cyd-bwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2020.

**Parhad Busnes**

Mae pecyn cymorth Rheoli Parhad Busnes SCHTh mewn grym er mwyn sicrhau bod staff yn gwybod beth i’w wneud pe bai sefyllfa’n codi lle yr aflonyddir ar fusnes ac ni ellir cynnal arferion gweithio arferol. Mae’r pecyn cymorth yn amlinellu sut y byddai’r swyddfa’n ymateb yn effeithiol i adfer ei weithgareddau a’i wasanaethau.

Adolygir RhPB SCHTh yn flynyddol, ac mae’r holl gynnwys yn cael ei wirio ar gyfer cywirdeb a gwybodaeth ddilys. Gwelodd adolygiad 2019 ddiweddariadau’n cael eu gwneud er mwyn cynnwys y ffaith bod SCHTh bellach wedi allanoli’r gydymffurfiaeth statudol o fod yn fewnol i’r darparwr rheoli cyfleusterau CBRE.

(Mae adolygiad interim ychwanegol wedi’i drefnu ar gyfer 2020 yn ngoleuni’r amgylchiadau a arweiniodd at alw arno ym mis Mawrth. Bydd hyn yn edrych ar yr hyn a weithiodd, beth oedd heb weithio, gwersi a ddysgwyd ac ati, ac fe fydd yn ddarn o waith ar y cyd rhwng y Tîm Gweithredol, Cydymffurfiaeth ac Ystadau. Bydd hyn hefyd yn gysylltiedig â darn o waith sydd wedi’i drefnu ar gyfer edrych ar ffyrdd newydd o weithio wrth symud ymlaen).

Mae copïau o becyn offer RhPB SCHTh ar gael yn nerbynfa SCHTh, gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, gan Ymgynghorydd Rheoli Parhad Busnes yr Heddlu, ac ar SharePoint.

**Gorchymyn Protocol Plismona 2011 – Gwiriad Iechyd**

Mae Adran 70 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn mynnu bod yr Ysgrifennydd Cartref yn cyhoeddi Protocol Plismona, sy'n berthnasol ar gyfer pob Prif Gwnstabl a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Mae'r protocol hwn yn nodi rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig â'r berthynas bedeir-ran, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Prif Gwnstabl, y Panel Heddlu a Throseddu a'r Ysgrifennydd Cartref.

Er mwyn dangos cydymffurfiaeth â Gorchymyn Protocol Plismona 2011, mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi datblygu gwiriad iechyd sy'n cwmpasu'r holl feysydd yn y protocol y mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd a phŵer cyfreithiol drostynt.

- Mae'r gwiriad iechyd nawr yn cael ei wirio bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod dal yn berthnasol ac yn rhoi cyfle i arweinwyr busnes adlewyrchu ar gofnodion blaenorol a newid adrodd yn ôl yr angen. Rhyddhawyd fersiwn 2 ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf hon ac mae trafodaethau eisoes wedi cychwyn ar gyfer paratoi fersiwn 3. Y nod yw ei gael yn barod fis Mai.
- Mae pob adran o fewn SCHTh yn cyfrannu at y gwiriad iechyd ar sail chwarterol drwy nodi GR a chrynodebau o'r gwaith a wnaed er mwyn bodloni'r manylebau gofynnol.
- Cynhyrchir adroddiad o'r crynodebau hyn, sy'n cael ei gyflwyno i'r Panel Heddlu a Throseddu a'i gyhoeddi ar wefan SCHTh.
- Cynhyrchir crynodeb o'r gwiriad iechyd bob chwarter ar gyfer y Tîm Gweithredol sy'n nodi gradd CAG ar gyfer pob maes.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal er mwyn pennu pa un ai a fyddai'n ymarferol i'r gwiriad iechyd a'r adroddiad chwarae mwy o rôl yng nghyfarfodydd y Panel Heddlu a Throseddu, gyda golwg ar ddatblygu'r agenda er mwyn alinio i unrhyw faterion y mae'r gwiriad iechyd yn codi. Bydd angen gwaith pellach gan arweinwyr busnes mewn perthynas â'u graddau CAG a darlun cyffredinol o'u meysydd er mwyn i hyn fod yn gynnig realistig.

**Hyfforddiant**

Mae holl aelodau SCHTh yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant rheolaidd er mwyn sicrhau fod ganddynt yr offer a'r sgiliau ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau. Mae'r

system werthuso (Proffil Asesu Datblygiad) yn galluogi rheolwyr llinell i fonitro hyfforddiant staff a thrafod unrhyw ofynion.

- Cwblhawyd adolygiad trylwyr o gyfraddau cwblhau cyrsiau NCALT staff. Gofynnwyd i'r holl aelodau staff gwblhau'r modiwlau gorfodol erbyn 31 Rhagfyr 2019. Dangosir fod y rhan fwyaf o staff, sef 82%, wedi cwblhau'r holl fodiwlau gorfodol yn awr. O ran y staff sy'n weddill, does dim llawer o waith ar ôl ganddynt i'w wneud, ond mae'r rheolwyr llinell unigol yn rheoli hyn.
- Cedwir y matrics hyfforddi ar gyfer staff Ystadau ar wahân gan fod modiwlau gorfodol gwahanol ganddynt oherwydd y rolau y maent yn eu cyflawni. Mae 89% o'r staff Ystadau wedi cwblhau'r holl fodiwlau gorfodol.
- Mae angen adnewyddu pecynnau NCALT bob yn ail flwyddyn. Cyn bod hyn yn dod yn ddarn o waith beichus i bawb eto mewn dwy flynedd, mae'r Pennaeth Staff a'r Rheolwr Perfformiad wedi trefnu i adolygu'r modiwlau ac edrych ar y rhai sydd angen aros oherwydd eu bod yn orfodol a pha rai y gellir cael gwared arnynt, ac edrych ar ddulliau amgen.
- Mae'n ofyniad cyfreithiol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fod pob aelod staff yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu data'n flynyddol. Ym mis Chwefror 2020, roedd pob aelod o staff SCHTh yn bresennol mewn diwrnod hyfforddi gyda darparwr allanol er mwyn sicrhau fod hyn yn cael ei gyflawni. Cynhaliwyd yr hyfforddiant ar y cyd â dau SCHTh arall yng Nghymru, sef Gogledd Cymru a Gwent.

## Adnoddau Dynol

Rhoddir adroddiad data absenoldeb i'r Tîm Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael gwybod am unrhyw faterion absenoldeb sy'n codi, unrhyw batrymau, nifer yr oriau sy'n cael eu colli ar gyfartaledd, lefelau canran ac ati.

Mae adroddiad AD ar wahân yn cael ei ystyried, gyda golwg ar gyflwyno'r adroddiad hwn yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Gwaith Polisi

Mae pob arweinydd busnes o fewn SCHTh yn gyfrifol am feysydd polisi penodol. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu ag arweinwyr Heddlu pan fod angen er mwyn llunio ymatebion i lythyrau, ymgynghoriadau priodol ac ati. Hefyd, nodir unrhyw ohebiaeth gan Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Uned Cyswllt yr Heddlu ac ati, a mynd i'r afael â hyn yn briodol.

Mae'r swyddogaeth Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn arwain ar y canlynol:

- Troseddau Seiber
- Diogelu Data
- Twyll
- Cydymffurfiaeth Gwybodaeth
- Rhannu Gwybodaeth
- Yr Iaith Gymraeg
- Y Gweithlu

Cyflwynwyd dau ymateb i AHEM yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- 28/11/19 –Seiber: Cadwch y golau ymlaen – Archwiliad o ymateb yr heddlu i droseddau seiber-ddibynnol
- 22/05/19 – Twyll: Amser i ddewis – Ymateb yr heddlu i dwyll

Ym mis Gorffennaf, anfonwyd ymateb i'r Cydlynydd Troseddau Economaidd Cenedlaethol ar y Strategaeth Plismona Twyll Genedlaethol Ddrafft.

Cyflwynwyd papur i'r Panel Heddlu a Throseddu ar Dwyll a Throseddau Seiber ym mis Ebrill 2019.

**Ystadau**

Mae Cydymffurfiaeth a Pherfformiad yn cyfrannu at rai gweithgareddau Ystadau:

- Casglwyd ac adroddwyd ar ddamweiniau/damweiniau a fu bron digwydd bob mis, gydag uchafbwyntiau'n cael eu cyflwyno yng nghyfarfod misol y tîm Ystadau.
- Bloc llety – Cesglir ffigurau ar gyfer defnydd o'r bloc llety ac adroddir amdanynt wrth y Cyfarwyddwr Ystadau bob mis.
- Meincnodi – Cwblhaodd y Swyddog Cymorth Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr adroddiad blynyddol fis Gorffennaf y llynedd, a bydd yn parhau i arwain ar y gweithgarwch hwn.
- Cynaliadwyedd – Mae Perfformiad a Chydymffurfiaeth yn trefnu holl gyfarfodydd y grŵp cynaliadwyedd ac yn bresennol ynddynt.
  Crëwyd taflen ddata i gipio'r holl ddata cyfleustodau ar gyfer y grŵp cynaliadwyedd er mwyn cyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â chostau a defnydd cyfleustodau, fflyd ac ati. Cesglir yr holl ddata a'i gofnodi gan y Swyddog Cymorth Perfformiad a Chydymffurfiaeth.

Mae dogfen ganllaw'n cael ei chynhyrchu er mwyn cyd-fynd â'r daenlen ddata.

- Cwblhawyd adolygiadau iechyd a diogelwch y swyddfa ym mis Ebrill a mis Hydref. Ni chodwyd unrhyw faterion penodol.